



08 Mai 2024

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, 22 Mai 2024

Annwyl Gymrawd,

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cymdeithas Ddysgedig Cymru dydd Mercher, 22 Mai 2024 am 14:00.

Am y tro cyntaf, bydd y Gymdeithas yn cynnal AGM hybrid. Bydd hyn yn caniatáu i Gymrodryr fynychu'n bersonol neu ymuno â ni ar-lein os nad ydynt yn gallu mynychu'n bersonol. **Gallwch gofrestru am y naill opsiwn neu'r llall ar gyfer y CCB [yma](#).**

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch chi i sefydlu Zoom, cysylltwch â fi:
hgmartinezavala@lsw.wales.ac.uk.

I weld yr Agenda a Phapurau'r cyfarfod, cliciwch [yma](#).

Os na allwch chi ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ond yn dymuno pleidleisio drwy brocsi, cliciwch y ddolen isod i gwblhau eich ffurflen Procsi erbyn 16:00 ddydd Llun 20 Mai 2024.

<https://www.smartsurvey.co.uk/s/VVA8RL/>

Yn gywir,

Dr Haydeé Martínez-Zavala
Clerc i'r Cyngor
hgmartinezavala@lsw.wales.ac.uk



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol | Annual General Meeting

22 May/Mai 2024, 14:00 - 16:00

Agenda

0	Trefniadau Olivia Harrison, Prif Weithredwr	Housekeeping Olivia Harrison, Chief Executive	ar lafar oral (3 mins)
1	Croeso a Chyflwyniad Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	Welcome and Introduction Professor Hywel Thomas, President	ar lafar oral (5 mins)
2	In Memoriam Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	In Memoriam Professor Hywel Thomas, President	ar lafar oral (2 mins)
3	Ymddiheuriadau am absenoldeb Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	Apologies for absence Professor Hywel Thomas, President	ar lafar oral (1 min)
4	Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2023 Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	Minutes of the 2023 Annual General Meeting Professor Hywel Thomas, President	(ynghlwm attached) (1 min)
5	Cyflwyniad i Gymrodyr Anrhydeddus: Syr Ian Diamond Yr Athro Michael Charlton, Is-Llywydd – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth	Introduction to Honorary Fellows: Sir Ian Diamond Professor Michael Charlton, Vice- President for Science, Technology, Engineering, Mathematics and Medicine	CCB/2024/01 AGM/2024/01 (10 mins)
6	Uchafbwyntiau'r flwyddyn Olivia Harrison, Prif Weithredwr	Highlights of the Year Olivia Harrison, Chief Executive	ar lafar oral (15 Mins)
7	Anrhydeddau, Gwobrau a dyfarniadau: Chyflawniadau Cymrodyr Yr Athro Hywel Thomas, Llywydd	Honours, Prizes and Awards: Fellows' achievements Professor Hywel Thomas, President	CCB/2024/02 AGM/2024/02 (5 Mins)

8	<p>Cyflwyniad i Gymrodyr Anrhydeddus: Yr Athro Farwes Ann Dowling Yr Athro Michael Charlton, Is-Lywydd – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth</p>	<p>Introduction to Honorary Fellows: Professor Dame Ann Dowling Professor Michael Charlton, Vice-President for Science, Technology, Engineering, Mathematics and Medicine</p>	CCB/2024/01 AGM/2024/01 (10 mins)
9	<p>Materion Llywodraethol:</p> <p>(a) Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2022/23; Penodi Arholwyr Annibynnol; a Thalysgrifiadau Yr Athro Terry Threadgold, Trysorydd</p> <p>(b) Swyddogion, Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau sydd wedi gadael ac aelodau newydd Yr Athro Faron Moller, Ysgrifennydd Cyffredinol</p>	<p>Governance Matters:</p> <p>(a) 2022/23 Annual Report and Accounts; Appointment of Independent Examiners; and Subscriptions Professor Terry Threadgold, Treasurer</p> <p>(b) Officers, Council and Committees: Outgoing and new members Professor Faron Moller, General Secretary</p>	CCB/2024/03 AGM/2024/03 (10 mins) CCB/2024/04 AGM/2024/04 (10 mins)
10	<p>Cyflwyniad i Gymrodyr Anrhydeddus: Yr Athro William D. Phillips Yr Athro Michael Charlton, Is-Lywydd – Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg a Meddygaeth</p>	<p>Introduction to Honorary Fellows: Professor William D. Phillips Professor Michael Charlton, Vice-President for Science, Technology, Engineering, Mathematics and Medicine</p>	CCB/2024/01 AGM/2024/01 (10 mins)
11	<p>Ethol Cymrodyr newydd 2023/24 a Croesawu a Chyflwyno Cymrodyr yn Ffurfiol Yr Athro Helen Fulton, Is-Lywydd – Dyniaethau, Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol</p>	<p>Election of new Fellows 2023/24 and the Formal Welcome and Introduction of Fellows Professor Helen Fulton, Vice-President for Humanities, Arts and Social Sciences</p>	CCB/2024/01 AGM/2024/01 (20 mins)
12	<p>Anerchiad Blynyddol gan y Llywydd</p>	<p>President's Annual Address</p>	ar lafar oral (10 Mins)
13	<p>Dyddiad y Cyfarfod nesaf Dydd Mercher 21 Mai 2025</p>	<p>Date of Next Meeting Wednesday 21 May 2025</p>	ar lafar oral (1 Min)



CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU THE LEARNED SOCIETY OF WALES

COFNODION TRYDYDD CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL AR DDEG Y GYMDEITHAS A GYNHALIWDYD YN NARLITHFA HAYDN ELLIS A THRWY GYNHADLEDD FIDEO DDYDD MERCHER, 24 MAI 2023

Yn bresennol:

Yr Athro Hywel Thomas	(Llywydd)	
Yr Athro Helen Fulton	(Is-lywydd)	
Yr Athro Michael Charlton	(Is-lywydd)	
Yr Athro Terry Threadgold	(Trysorydd)	
Yr Athro Alan Shore	(Ysgrifennydd Cyffredinol)	
		Yr Athro Tim Phillips
Yr Athro Sondipon Adhikari	Yr Athro Ifan Hughes	Yr Athro Eleri Pryse
Yr Athro Paul Atkinson	Dr John Hughes	Yr Athro David Ian Rabey
Yr Athro Robert Beynon	Yr Athro Ieuan Hughes	Yr Athro Robert Read
Yr Athro Phil Bowen	Yr Athro Sheila Hunt	Yr Athro Mark Rees
Yr Athro Nigel Brown	Yr Athro Uzo Iwobi	Yr Athro Paul Rees
Yr Athro Clare Bryant	Dr Layla Jader	Mrs Elin Rhys
Dr Ben Calvert	Yr Athro Geraint Jewell	Yr Athro Geoff Richards
Yr Athro Elaine Canning	Yr Athro Nigel John	Ms Ceridwen Roberts
Dr Ruth Chadwick	Yr Athro Trevor Jones	Yr Athro Gareth Roberts
Yr Athro Liana Cipcigan	Yr Athro Mari Jones	Yr Athro Andrew Rowley
Yr Athro Tom Crick	Yr Athro David Wyn Jones	Wendy Sadler
Yr Athro Hazel Davey	Yr Athro Aled Jones	Yr Athro Rossi Setchi
Yr Athro Ceri Davies	Baroness Brown of Cambridge	Yr Athro Qiang Shen
Yr Athro Michael Davies	Dr Ceridwen Lloyd-Morgan	Yr Athro Huw Summers
Yr Athro Mererid Puw Davies	Mr Pedr Ap Llwyd	Yr Athro Andrea Tales
Dr Rob Deaves	Yr Athro Dame Julie Lydon	Mr Ned Thomas
Dr Cameron Durrant	Yr Athro Faron Moller	Yr Athro Neil Thompson
Yr Athro Dianne Edwards	Yr Athro Kathryn Monk	Yr Athro John Tucker
Yr Athro Bob Evans	Yr Athro Hywel Morgan	Yr Athro Meena Upadhyaya
Yr Athro Rachel Evans	Mr Steve Morris	Yr Athro Diana Wallace
Yr Athro Andrew Evans	Yr Athro Damien Murphy	Dr Eryn White
Yr Athro Anthony Ford	Dr Charles Mynors	Yr Athro Chris Williams
Yr Athro Haley Gomez	Yr Athro Helen Nicholson	Dr John Williams
Yr Athro Tim Green	Yr Athro Perumal Nithiarasu	Yr Athro Laurence Williams
Yr Athro Alan Guwy	Yr Athro Ruth Northway	Yr Athro Stephen Williams
Yr Athro Abderrahmane Haddad	Yr Athro Katherine Leni Oglesby	Yr Athro Sir Robin Williams
Yr Athro Chris Hann	Yr Athro Alan Parker	Dr Rowland Wynne
Yr Athro Keith Harding	Ms Maxine Penlington	Yr Athro Reyer Zwigelaar
Yr Athro David Herbert	Yr Athro Duc Pham	
Yr Athro Trevor Herbert		
Dr Sarah Hill		

96 Cymheiriaid yn bresennol

Mynychu drwy ddirprwy (9):

Yr Athro Simon Cox

Yr Athro Thomas Anthony Ford

Yr Athro Claire Gorrara

Yr Athro Hilary Lapin-Scott

Yr Athro Ceri Phillips

Yr Athro Angela V John

Dr Sue Niebrzydowski

Yr Athro Marcela Votruba

Dr Emma Yhnell

Yn bresennol:

Olivia Harrison

Amanda Kirk

Joe Boyle

Fiona Gaskell

Dr Haydee Martinez Zavala

Cathy Stroemer

Dr Barbara Ibinarriaga Soltero

Aisha Umma

Nerys Hurford

(Prif Weithredwr)

(Clerc)

(Swyddog Cyfathrebu)

(Swyddog y Gymrodoriaeth)

(Swyddog Gweithrediadau)

(Rheolwr Rhaglen, Datblygu Ymchwilwyr)

(Swyddog Rhaglen, Datblygu Ymchwilwyr)

(Swyddog Cyllid)

(Cyfieithydd)

Dechreuodd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol am 9.30 y bore.

1. Croeso a Chyflwyniad gan Lywydd y Gymdeithas

Croesawodd y Llywydd y rhai a oedd yn bresennol, ar-lein ac yn yr ystafell, i drydydd cyfarfod cyffredinol blynyddol ar ddeg Cymdeithas Ddysgedig Cymru, a datgan bod y cyfarfod ar agor.

Roedd croeso arbennig i Gymrodyr newydd y Gymdeithas a Chymrodyr eraill oedd yn bresennol nad oeddent wedi gallu bod yn bresennol yn un o'r Cyfarfodydd Cyffredinol Blynyddol blaenorol.

Estynnodd y Llywydd groeso i Nerys Hurford, a oedd yn bresennol i gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Atgoffodd y rhai a oedd yn bresennol hefyd fod croeso iddynt siarad yn Gymraeg neu y Saesneg yn y cyfarfod.

Nododd y Llywydd farwolaeth y Cymrodyr a ganlyn:

- Yr Athro Andrew Linklater, FACSS FLSW FBA
1949 – 2023
- Yr Athro Antony Chapman, OBE FACSS FBPSS FLSW
1947 - 2022
- Yr Athro Howard Thomas, FWIP FLSW
1948 – 2022
- Yr Athro John Harries, FINSTP FRMETS FLSW
1946 – 2022
- Yr Athro Lesley Jones, FLSW
1957 - 2022
- Yr Athro Michael Bruford, FLSW
1963 – 2023

Cynhaliodd y rhai a oedd yn bresennol ychydig o funudau o dawelwch er cof amdanynt.

2. Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Roedd 13 o ymddiheuriadau wedi dod i law, a byddent yn cael eu rhestru ar ffurf atodiad i gofnodion y cyfarfod.

3. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022

DERBYNIODD, NODODD, A PHENDERFYNNODD YR AELODAU GYMERADWYO Cofnodion deuddegfed Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas, a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022. Byddai'r cofnodion yn cael eu llofnodi gan y Llywydd ar y cyfle cyntaf.

4. Cyhoeddi Cymrawd er Anrhydedd Newydd, y Farwnes Brown

Gwahoddodd y Cadeirydd yr Athro Helen Fulton i gyflwyno'r Farwnes Brown o Gaergrawnt, a'r Athro Julia King, a oedd yn gresyn yn fawr iddi orfod tynnu'n ôl o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 2022. Peiriannydd o Brydain oedd y Farwnes Brown a oedd wedi cyrraedd brig ei phroffesiwn, ac a oedd yn eithriadol o ddylanwadol. Ar ôl graddio o Brifysgol Caergrawnt, treuliodd ei gyfnod cynnar ei gyrfa yn Rolls Royce lle bu'n gweithio ar aloeon a oedd yn gwrthsefyll lludded ar gyfer injanau awyren, gan arwain at ddatblygu awyrennau mwy diogel ac effeithlon. Symudodd ymlaen wedyn i'r byd academiaidd, gan ymgymryd â rôl Deon Gweithredol yng Nghyfadrann Peirianeg y Coleg Imperial. Wedi hynny, fe'i penodwyd yn Is-Ganghellor Prifysgol Aston, swydd a gyflawnodd yn llwyddiannus iawn. Yn ystod y cyfnod hwn, bu hefyd yn cadeirio Adolygiad King o Geir Carbon Isel (2008). Mae hi wedi derbyn llawer o ddyfarniadau i gydnabod ei chyflawniadau, sef FREng, FRS, DBE, gan gynnwys dyrchafiad i Dŷ'r Arglwyddi fel Croesfeinciwr.

Ar hyn o bryd, mae hi'n arbennig o adnabyddus am ei gwaith ar yr Agenda Newid Hinsawdd, lle mae hi'n cadeirio Pwyllgor y DU ar gyfer Ymaddasu i'r Newid Hinsawdd.

Anerchodd y Farwnes Brown y cyfarfod:

"Bore da and thank you very much for that great introduction and also for the enormous honour of making me a Fellow of the Learned Society of Wales. I am absolutely thrilled about it.

I would like to say a few words to you about adaptation and that is very timely for a number of reasons.

The first reason being that the Climate Change Commission recently received a commission from the Welsh Government to ask us to review Wales' position in relation to adaptation. Now that is not a statutory requirement, it has been a request that the Welsh Government would like us to do it and it is the first time we have done it for ten years. And that is particularly timely as we have heard recently a lot about the changing climate. We have had the IPCC (Intergovernmental Panel on Climate Change) AR6 (sixth assessment report) summary report, highlighting that the climate is changing faster and we are seeing more extreme events than had previously been predicted.

We saw 40 degrees centigrade temperatures in the UK last summer. We are being told that we may hit 1.5 or 1.8 degrees as an average global temperature in the next five years. Not on a permanent basis but as a peak, perhaps associated with the El Niño that we are expecting. And of course, we are now probably expecting to reach two degrees centigrade average global warming by 2050, hitting 1.5 degrees sometime in the 2030's. Temperatures will not stop rising until we reach net zero globally. Hopefully, if we reach net zero between 2050 and 2060, globally, we may stop at two degrees or not much higher than that. But of course, if we don't, temperatures will go on rising until we do and that could be towards the end of the century. So, we could be seeing much more than two degrees of average warming by the end of the century if we continue globally on our current pathway.

There are two things we need to do about that and both of them are crucially important. We need to do what we call mitigation, reducing our greenhouse gas emissions. That is fundamental and we must proceed with that as fast as we can. But recognising that temperatures will still go on rising, probably for another 30 years, we also need to adapt to those rising temperatures.

Adaptation has two aspects; we need to look at how people, infrastructure and nature are exposed to those temperatures and those changes in the climate. And how vulnerable they are to those changes. So, adaptation is about acting on exposure and vulnerability.

Wales has some particular challenges that we will be looking at in our report to the Governments. One of those that has really struck me particularly is, of course, that you still have a significant number of towns and villages who have spoil heaps close by from the history of mining in Wales. And the fact that one of the changes in climate that we are seeing is more short periods of very intense rainfall and we know that they can be destabilising, both for the banks at the side of railways as we have seen with a very sad disaster in Scotland quite recently. But also spoil heaps can be destabilised by changes in climate. We know that the Welsh Government is very aware of that, and we will be looking at their plans for tackling that particular issue, that particularly important area that we need to be making sure is safe from the changes in climate.

Adaptation, as I have said, is about exposure and vulnerability, and one of the other good things about the request we have had from the Welsh Government, is that they have asked us to comment on social justice. It is very important that we recognise that we need a just transition for mitigation. We need to make sure that there are jobs for the people whose industries are going to be declining rapidly and that we are re-training them and

planning to make sure that they are available and ready for the green jobs that we are developing for future industries.

We also need to recognise that there is a big social justice issue associated with adaptation. That is because part of adaptation is about vulnerability and of course, people who are in less affluent areas tend to have less ability to adapt their homes to the hotter climate for example. That makes them more vulnerable and that is something we really do need to think about right across the UK.

It has been really good to see both the Welsh Government and the Scottish Government asking us specifically to look at vulnerability and justice issues associated with making sure we are properly adapted to the changing climate.

There are a lot of challenges with progress with adaptation in Wales, but also some positive things in terms of what the Welsh Government has asked us to do. It also reminds us that adaptation and mitigation are about engineering, about understanding the climate science, but also about making sure that engineers and physical scientists are working together with social scientists, and we integrate social science closely into the way we address the challenges of the changing climate in the UK and globally.

Adaptation throws up some particularly difficult challenges in terms of evaluation. One of the areas where right across the world we have challenges. We don't yet have enough experimentation, understanding or scientific background in many areas to tell us if the actions we are taking to adapt to the changing climate are actually delivering the outcomes we want. And in that area of monitoring and evaluation, there are huge and interesting opportunities, and we need to see more science and more investment in some large-scale experimentation.

I hope that is something over the next few years, right across the UK, including Wales that we will start to see. Again, thank you very much, it is a huge honour for me to become a Fellow of the Learned Society of Wales. Thank you for bestowing this on me."

Diolchodd yr Athro Fulton i'r Farwnes Brown am ei haraith amserol, ac am atgoffa'r Gymdeithas ynghylch yr angen neilltuol yng Nghymru o ran y newid hinsawdd. Roedd yn galonogol deall bod pobl eisoes yn mynd i'r afael â'r materion a'r pryderon. Croesawodd yr Athro Fulton y Farwnes Brown i'r Gymdeithas, ac edrychai ymlaen at gydweithio yn y dyfodol.

5. Uchafbwyntiau'r Flwyddyn

Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad ar rai o weithgareddau'r Gymdeithas dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn 2022, dyfarnwyd £172k i'r Gymdeithas gan CCAUC, cynnydd o bron i £70k o gymharu â'r flwyddyn gynt.

Gwnaed hyn er mwyn parhau â'r bartneriaeth i gyflawni'r meysydd canlynol:

- Datblygu ein rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar ymhellach.
- Cefnogi mentrau ar gyfer ymchwilwyr canol gyrfa ac uwch ymchwilwyr.
- Darparu grantiau bach ar gyfer cynigion ymchwil cydweithredol.
- Cryfhau llais Cymru mewn partneriaethau strategol allweddol, gan gynnwys cynghrair yr Academiâu Celtaidd (CAC). Yn 2022 ailgychwynwyd CAC gan ddechrau gyda thaith i Ddulyn ym mis Hydref. Ers hynny, roedd y Prif Weinidog wedi dangos diddordeb yn y gynghrair a'i photensial i gynyddu cysylltiadau Celtaidd. Gan hynny, byddai cynrychiolydd o'r Gymdeithas yn ymuno â'r Prif Weinidog yn ystod ymweliad i Gymdeithas Frenhinol Caeredin yn fuan ym mis Mehefin 2023.
- Dathlu rhagoriaeth a chynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o waith ymchwil. Roedd swm sylweddol o'r cyllid gan CCAUC, ochr yn ochr â chefnogaeth gan Rwydwaith Arloesi Cymru a Swyddfa Wyddoniaeth LIC wedi cael ei ddefnyddio i gomisiynu Coleg y Brenin Llundain i ailadrodd ei ddadansoddiad o astudiaethau achos effaith y FfRhY. Yn 2017 lluniwyd adroddiad hynod werthfawr drwy ddefnyddio astudiaethau achos effaith FfRhY2014. Roedd y Gymdeithas yn ailadrodd hyn gyda chanlyniadau 2021 a byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ddiwedd 2023.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwelwyd cynnydd aruthrol o ran gweithgarwch arlwy'r Gymdeithas i YGGwyr. Roedd hyn yn cynnwys gweithdy rhyngweithiol ar foesege ymchwil, a chyfathrebu ym maes gwyddoniaeth a gweminarau ar yrfaedd ymchwil y tu allan i'r byd academiaidd, ac ymgorffori polisi mewn gwaith ymchwil. Roedd pob un o'r gweithgareddau hyn y cynnwys mewnbyn gan o leiaf un Cymrawd. Mynegodd y Prif

Weithredwr ei diolch ar ran y Gymdeithas i bawb a gymerodd ran, boed hynny mewn gweminarau, seminarau, yn y grŵp cynghori neu yn yr hyfforddiant a oedd yn cael ei dreialu.

Roedd y Gymdeithas hefyd wedi sefydlu brand newydd yn benodol ar gyfer y Rhwydwaith YGGwyr, gan roi hunaniaeth iddo a oedd yn gysylltiedig â brand Cymdeithas Ddysgedig Cymru, ond ar wahân iddo hefyd. Roedd y tîm wedi bod yn estyn allan i Rwydweithiau YGGwyr presennol i sicrhau bod rôl y Gymdeithas yn ychwanegu gwerth drwy gysylltu gwaith rhwydweithiau eraill yn hytrach na'i ddyblygu. Roedd Rhwydwaith YGGwyr y Gymdeithas yn rhoi cyfle i YGGwyr gysylltu â rhai y tu allan i'w disgyblaeth neu eu sefydliad.

Atgoffodd y Prif Weithredwr y rhai a oedd yn bresennol fod colociwm hybrid cyntaf i YGGwyr yn cael ei gynnal yn Abertawe ar 6 Gorffennaf, ac anogodd y Cymrodyr i fod yn bresennol i gefnogi'r YGGwyr yn y digwyddiad rhwydweithio carlam neu yn ystod eu sgysiau cyflym yn y digwyddiad.

Pwrpas cynllun grant gweithdy ymchwil y Gymdeithas oedd annog ymchwil gydweithredol i gynnig ymchwil a oedd ond yng nghyfnod cynnar ei ddatblygiad. Gan adeiladu ar lwyddiant peilot 2021, datblygodd y Gymdeithas dair ffrwd ar gyfer 2022-23: Astudiaethau Cymru, Ymchwilydd Gyrfa Gynnar, a'r Dyniaethau, y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol. Roedd hyd at £1,000 ar gael i gefnogi pob gweithdy. Cynhaliodd y Gymdeithas 3 chylch o grantiau, gan ddyfarnu cyfanswm o 23 o grantiau, yn gyfwerth ag ychydig dros £22k.

Deuai'r ymchwilwyr arweiniol o brifysgolion yng Nghymru, ac roedd yn rhaid i'w gweithdai gynnwys o leiaf un partner arall o du allan i'r brifysgol. Roedd y rhain yn cynnwys ymchwilwyr o brifysgolion eraill yng Nghymru, y DU ac yng ngweddill y byd, yn ogystal â llawer o bartneriaid o sefydliadau anacademaidd fel llywodraeth leol, grwpiau cymunedol, diwydiant ac artistiaid.

Cynhaliodd y Gymdeithas weminar rhagarweiniol i dderbynwyr grant, a gweminar ymgeisio a oedd yn cynnwys enillydd grant blaenorol. Rhoddwyd adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.

Yn rhan o werthusiad y Gymdeithas, casglwyd adborth ar ganlyniad y gweithdai a ddangosai sut yr aeth prosiectau rhagdynt i ennill cyllid mewnol ac allanol pellach. Ar ben hynny, dyma oedd y tro cyntaf i YGGwyr dderbyn dyfarniad grant allanol, ac roedd yn eu galluogi i arwain prosiect am y tro cyntaf.

Roedd y Gymdeithas yn falch iawn o gynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb eto eleni, gan gynnwys tri derbyniad i Gymrodyr newydd yn Aberystwyth, Abertawe a Chaerdydd. Roedd y rhain yn ffordd wych o gyfarfod unwaith eto ar ôl y cyfnod clo, ac yn rhoi cyfle i lawer a oedd wedi ymuno â'r Gymdeithas yn rhithiol gael eu derbyn yn ffurfiol a llofnodi'r gofrestr Cymrodyr. Yn anffodus, cafodd digwyddiad Bangor ei ohirio a byddai'n cael ei aildrefnu yn nhymor yr hydref.

Mae'r Gymdeithas hefyd wedi parhau i gefnogi digwyddiadau, gan gynnwys darlithoedd anrhydeddus fel Darlith David Olive, Darlith Amy Dillwyn, a draddodwyd eleni gan y Cymrawd Charlotte Williams, a Darlith Zienkiewicz, ymhlith digwyddiadau eraill. Cynadleddau ar themâu fel "Profiadau Crefyddol a Chyfriniaeth", llawysgrifau Cymreig ac anghydraddoldebau lechyd. Cefnogodd y Gymdeithas hefyd Blac Piws - y gwaith i'w greu a'r digwyddiad dadorchuddio - er anrhydedd i Frances Hoggan.

Bob blwyddyn mae'r Gymdeithas yn dyfarnu medalau i ymchwilwyr eithriadol.

Eleni dyfarnwyd medalau mewn digwyddiad gwobrwyo ar fformat newydd ym Mae Caerdydd, a oedd yn gyfle i'r Gymdeithas wahodd rhanddeiliaid allanol i weld yr ymchwil ragorol sy'n digwydd yng Nghymru. Camodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Jane Hutt, i'r adwy yn lle'r Prif Weinidog a oedd yn anffodus wedi dal Covid ac yn methu bod yn bresennol.

Hyrwyddwyd y digwyddiad yn eang, a chynhyrchwyd fideo i dynnu rhagor o sylw at y medalau. Atgoffodd y Prif Weithredwr y rhai a oedd yn bresennol fod yr enwebiadau ar agor o hyd ar gyfer medalau 2023 ac anogodd y Cymrodyr i ystyried ymgeiswyr addas i'w henwebu.

Oherwydd problem dechnegol, nid oedd y Prif Weithredwr wedi gallu chwarae'r fideo am y medalau, a mae modd ei gwyllo [yma](#).

Anogodd y Prif Weithredwr y Cymrodyr i edrych ar wefan y Gymdeithas a darllen y bwletin misol am wybodaeth fanylach ynghylch gwaith y Gymdeithas drwy gydol y flwyddyn.

6. Trosolwg o waith y Gymdeithas ar Strategaethau Arloesi i Gymru

Nododd y Prif Weithredwr fod yr Athro Rick Delbridge wedi ymddiheuro ar y funud olaf nad oedd yn gallu bod yn bresennol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol oherwydd salwch. Dymunodd y Gymdeithas wellhad buan i'r Athro Delbridge. Yr Athro Delbridge oedd y Cynghorydd Arbennig ar gyfer Ymchwil ac Arloesi ac ef oedd yn Cadeirio gwaith y Gymdeithas ym maes arloesi. Ers mis Tachwedd 2021 roedd y Gymdeithas wedi cynnull nifer o gyfarfodydd bord gron gan ddod ag arbenigwyr, ymarferwyr ac arweinwyr arloesi ynghyd er mwyn helpu i lywio a gwella polisiau ac arferion arloesi yng Nghymru ac ar gyfer Cymru. Cydnabuwyd cyfraniad y trafodaethau a'r adroddiadau ym mis Medi 2022, pan gafodd y Gymdeithas wahoddiad i gyd-gynnal a chyd-gynnull trafodaeth bord gron gan Weinidog yr Economi i gyfrannu'n uniongyrchol at gamau olaf yr ymgynghoriad ar y Strategaeth Arloesi Ddrafft i Gymru. Roedd y Gymdeithas newydd gael cais i gyd-gynnal bord gron arall i'r Gweinidog wythnos diwethaf, i gyfrannu at ddatblygu cynllun cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer y strategaeth arloesi. Byddai'r Gymdeithas yn parhau â'r gwaith hwn, ac yn parhau i godi ei phroffil ac ehangu ei rôl yn ecosystem arloesi Cymru. Roedd y Gymdeithas yn hynod ddiolchgar i Rick am ei amser a'i arbenigedd wrth arwain y gwaith hwn. Gellir gweld yr holl adroddiadau bord gron [yma](#).

7. Anrhydeddau, Gwobrau a Dyfarniadau

Diolchodd y Llywydd i'r Athro Delbridge am yr holl waith yr oedd wedi'i wneud a nododd ei bod yn wych gweld y Gymdeithas yn chwarae rhan mor ddylanwadol yn Strategaeth Arloesi Llywodraeth Cymru. Pwysleisiodd y Llywydd bwynt y Prif Weithredwr ac atgoffa'r Cymrodyr fod cylch medalau 2023 ar agor hyd 30 Mehefin. nogwyd cymrodyr i feddwl am gydweithwyr a ffrindiau ac ystyried a allai unrhyw un ohonynt fod ymhlith y garfan nesaf o enillwyr medalau'r Gymdeithas. Roedd Papur 2023/02 yn rhestru'r holl anrhydeddau a'r gwobrau yr oedd Cymrodyr wedi'u derbyn yn y 12 mis diwethaf ac a oedd yn hysbys i'r Gymdeithas. Nododd y Llywydd ei ryfeddod at ehanger cyflawniadau a llwyddiannau Cymrodyr y Gymdeithas, a mynegodd pa mor falch ydoedd o weithio gyda grŵp o unigolion mor anrhydeddus. Roedd yr amrywiaeth eang o anrhydeddau yn drawiadol iawn. Roedd saith Cymrawd yn ymddangos ar restr anrhydeddau pen-blwydd y ddiweddar Frenhines a 3 arall ar restr anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Brenin. Roedd hi'n anodd iawn cyfeirio at unrhyw gyflawniad penodol, gan fod pob un ohonynt mor nodedig. Anogodd y Llywydd y Cymrodyr i edrych ar yr hyn yr oedd eu cydweithwyr wedi bod yn ei wneud. Roedd cymaint yn cael ei wneud, ac nid oedd hyn yn cynnwys y llyfrau a'r cyhoeddiadau dirifedi yr oedd Cymrodyr wedi bod yn gweithio arnynt. Ymddiheurodd y Llywydd os oedd wedi methu unrhyw un, a gofynnodd i'r Cymrodyr roi gwybod i Joe Boyle, Swyddog Cyfathrebu'r Gymdeithas, am unrhyw hepgoriadau. Byddai'r rheiny'n cael eu cynnwys ym Mwletin y Cymrodyr a fyddai'n cael ei ryddhau cyn hir. Nid oedd y Gymdeithas ond yn gallu adrodd am anrhydeddau a gwobrau yr oedd y tîm yn cael gwybod amdanynt. Llongyfarchodd y Llywydd yr holl Gymrodyr a oedd wedi derbyn anrhydedd neu wobr yn y flwyddyn a fu.

8. Materion Llywodraethu

8a. Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, 2021/22 a Phenodi Archwilwyr Annibynnol

Cyflwynodd y Trysorydd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Gymdeithas gan nodi bod llawer iawn wedi digwydd yn ystod y cyfnod 1 Awst 2021 hyd 31 Gorffennaf 2022. Roedd yr adroddiad ar gael i'w weld ar [wefan](#) y Gymdeithas, a chopïau caled ar gael i Gymrodyr ar gais. Roedd yn bwysig deall o ble y daeth incwm y Gymdeithas, a rhoddodd y trysorydd drosolwg cryno o hynny. Byddai'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried y posibilrwydd o gynyddu eto y symiau blynyddol gan brifysgolion yng Nghymru er mwyn cefnogi cyllid y Gymdeithas. Byddai'r incwm a oedd yn cael ei gynhyrchu gan y Cymrodyr yn parhau i godi ac yn cefnogi anghenion y Gymdeithas. Roedd y cyllid ychwanegol gan CCAUC wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol i waith y Gymdeithas, a diolchodd y Trysorydd i Olivia am ei holl waith caled i sicrhau cyllid ychwanegol a chynhyrchu incwm treigl o hyn allan. Roedd y Gymdeithas yn ddiolchgar iawn eto i holl Brifysgolion Cymru a oedd yn parhau i ddarparu cyllid anghyfyngedig i gefnogi gwaith y Gymdeithas.

Roedd y Gymdeithas hefyd yn ddiolchgar i Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) am eu rhodd hael o waith pro-bono. Heb ei chefnogaeth, ni fyddai'r Gymdeithas yn gallu gweithredu. Roedd PCYDDS hefyd wedi dechrau'r broses o ddrafftio prydles ffurfiol â'r Gymdeithas i ddiogelu swyddfeydd. Y gobaith oedd y byddai'r brydles yn ei lle am o leiaf tair blynedd.

Diolchodd y Trysorydd i'r holl Gymrodyr am gyfrannu drwy dalu tanysgrifiadau a rhoi rhoddion ychwanegol. Roedd y Gymdeithas hefyd yn ddiolchgar i'r holl Gymrodyr hynny a ganiataodd i'r Gymdeithas hawlio Rhodd Cymorth yn erbyn eu tanysgrifiad. Roedd hyn yn fodd i sicrhau cynnydd o 25% i'r cyfraniad heb i'r Cymrawd ysgwyddo unrhyw gost ychwanegol.

Anogodd y Trysorydd unrhyw Gymrodyr cymwys nad ydynt eisoes yn gwneud hynny i ganiatáu i'r Gymdeithas hawlio Rhodd Cymorth yn erbyn eu tanysgrifiad.

Gallai cymrodyr lenwi'r ffurflen drwy ymweld â gwefan y Gymdeithas a chlicio ar CEFNOGI'R GYMDEITHAS ar ben uchaf ochr dde'r hafan.

Roedd y Gymdeithas yn falch o fod wedi derbyn cynnydd sylweddol yn y grant gan CCAUC. Llwyddodd y Prif Weithredwr i sicrhau £103,623, gan alluogi'r Gymdeithas i recriwtio staff newydd i gyflwyno'r rhaglen Datblygu Ymchwilwyr a ariennir gan CCAUC.

Roedd y Trysorydd a'r Pwyllgor Gwaith wrth eu bodd â'r gwaith yr oedd Olivia wedi'i wneud, ac yn croesawu'r cytundeb partneriaeth newydd rhwng y Gymdeithas a CCAUC i ddatblygu cynllun cymorth cenedlaethol i ddatblygu ymchwilwyr, a oedd yn cynnwys ehangu'r Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar.

Nododd y Trysorydd mai'r treuliau mwyaf o hyd oedd cost y tîm o staff sy'n cefnogi'r holl waith y mae'r Gymdeithas yn parhau i'w wneud.

Dyweddodd y Trysorydd na fu unrhyw wariant annisgwyl yn ystod y flwyddyn. Roedd y Gymdeithas wedi cario gwarged bychan drosodd ac roedd ei sefyllfa ariannol yn parhau i fod yn iach.

Roedd y Gymdeithas yn dal i gadw digon o arian wrth gefn i fodloni'r polisi cronfeydd wrth gefn ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol roedd ganddi £245,000 wedi'i fuddsoddi yn y gronfa datblygu strategol. Byddai'r Pwyllgor Cyllid yn adolygu'r Gronfa Datblygu Strategol a'r defnydd ohoni yn y flwyddyn a oedd i ddod.

Byddai'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn adolygu'r polisi cronfeydd wrth gefn i benderfynu a oedd costau gweithredu chwe-misol yn parhau i fod yn ddigonol wrth i siâp y Gymdeithas newid.

Roedd Is-ddeddfau a Rheoliadau'r Gymdeithas yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyflwyno cyfrifon archwilledig ac adroddiad blynyddol y Gymdeithas gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gan hynny, gofynnwyd i'r Cymrodyr dderbyn yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol ar gyfer y cyfnod 1 Awst 2021 hyd 31 Gorffennaf 2022 (unfed cyfnod cyfrifyddu ar ddeg y Gymdeithas).

Penderfynodd y Cymrodyr fabwysiadu Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gymdeithas 2021 - 2022.

Nododd y Trysorydd fanylion yr ymgynghorwyr ariannol annibynnol a fu'n gweithio gyda'r Gymdeithas dros y blynyddoedd diwethaf.

Roedd y Gymdeithas wedi bod yn hapus gyda lefel y gwasanaeth a gynigiwyd a byddai'n croesawu'r cyfle i barhau i weithio gydag Azets.

Penderfynodd y Cymrodyr gymeradwyo penodi Azets, yr archwilwyr annibynnol.

DERBYNIODD, NODODD a PHENDERFYNNODD yr Aelodau gymeradwyo papur AGM/2023/24, Materion Llywodraethu, Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol, 2021/22 a Phenodi Archwilwyr Annibynnol ar gyfer 2022/23.

8b. Materion Llywodraethu

Swyddogion, Y Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau newydd a rhai sy'n gadael

Cyflwynodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol bapur AGM/2023/04 i fodloni rhai o ofynion cyfansoddiadol y Gymdeithas. Dros y flwyddyn gynt, roedd yr eitemau blynyddol a drafodwyd gan y Cyngor yn cynnwys cynnal adolygiad o Reoliadau'r Gymdeithas, diweddarau rhestr ddirprwyo'r Gymdeithas, adolygu cylch gorchwyl y Pwyllgorau Llywodraethu a chymeradwyo cyllideb 22/23 a'r cynllun gweithgarwch cysylltiedig. Yn ogystal â hynny, roedd Cyngor y Gymdeithas hefyd wedi ymgynghori ar strategaeth pum mlynedd newydd y Gymdeithas a chyfrannu at y strategaeth honno. Cymeradwyo'r newidiadau i'r pwyllgor C1 gynt, gan gynnwys newid ei enw i ICAP. Cefnogi'r gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (Amrywiaeth Tegwch a Chynhwysiant bellach) i weithredu newidiadau i greu Cymdeithas sy'n fwy cynhwysol. Cynnal adolygiad cynhwysfawr o Gofrestr Risg y Gymdeithas. Sefydlu cynllun busnes cynhwysfawr ar gyfer pob Pwyllgor Llywodraethu a diwygio'r cod ymddygiad ar gyfer pob Cymrawd.

Dywedodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol wrth y Gymrodyr fod y Gymrodoriaeth, ar ddechrau 2023, wedi pleidleisio i ethol yr Athro Hywel Thomas yn Llywydd y Gymdeithas Ddysgedig am dymor arall o dair blynedd.

Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yr Athro Thomas a nododd ei fod yn edrych ymlaen at barhau i gynorthwyo'r Llywydd i gyflawni strategaeth nesaf y Gymdeithas.

Atgoffwyd y Gymrodyr fod Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2023 yn nodi diwedd ail dymor yr Ysgrifennydd Cyffredinol, ac y byddai'n trosglwyddo'r awenau i'r Athro Faron Moller a oedd wedi'i ethol drwy bleidlais o'r holl Gymrodyr ym mis Ebrill 2023.

Dymunodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol bob llwyddiant i'r Athro Moller yn ei rôl newydd.

Er bod yr Ysgrifennydd Cyffredinol yn rhoi'r gorau i fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol, byddai'n parhau i wasanaethu ar y Cyngor am un flwyddyn arall.

Ar ôl iddo gael ei ethol, byddai'r Athro Faron Moller yn dod yn aelod ex officio o'r Cyngor.

Roedd yr Athro Roger Awan-Scully wedi gadael y Cyngor ar ôl symud i Hong Kong. Diolchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol i'r Athro Awan-Scully am ei gyfraniadau i'r Cyngor.

Ym mis Mawrth cynhaliodd y Gymdeithas bleidlais o'r holl Gymrodyr i ethol pum aelod o'r Cyngor. Cafodd pob un o'r pum Cymrawd a oedd yn gymwys i'w hailethol yn ôl i'w swyddi, a byddent yn gwasanaethu am ail dymor o dair blynedd.

Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yr Athro Claire Gorrara, yr Athro Alma Harris, yr Athro Qiang Shen, yr Athro John V Tucker a'r Athro Meena Upadhyaya am gael eu hail-ethol.

Diolchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol i'r holl Gymrodyr hynny a oedd wedi gwneud cais am swyddi ar y Cyngor, a gobeithiai y byddent yn ystyried gwneud cais yn y dyfodol gan fod rhai cymrodyr hynod dalentog ar papur pleidleisio.

Mynegodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ddiolch diffuant i bawb a oedd wedi rhoi o'u hamser i wasanaethu ar bwyllgorau llywodraethu'r Gymdeithas; roedd eu cyfraniadau'n amhrisiadwy.

Ni fu unrhyw newid i'r Pwyllgor Cyllid, a byddai'r tîm yn parhau i gydweithio y flwyddyn nesaf.

Ym mis Chwefror 2023, cafwyd galwad am aelod ychwanegol gan y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol. Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol Ms Maxine Penlington a gafodd ei phenodi heb fod angen etholiad.

Ni fu unrhyw newidiadau eraill i aelodaeth y Pwyllgor Dibenion Cyffredinol.

Ni fu unrhyw newidiadau i aelodaeth Pwyllgor y Gymrodoriaeth, a chyda chefnogaeth anhygoel Fiona Gaskell, roedd y Pwyllgor yn parhau i sicrhau bod cylch etholiadau'r Gymdeithas yn cael ei weithredu'n deg a chynhwysol.

Ni fu unrhyw newid i aelodaeth y pwyllgor trosolwg Llywodraethu.

Nododd yr Ysgrifennydd Cyffredinol y bu'n bleser gweithio gyda Chynrychiolwyr Prifysgolion y Gymdeithas Ddysgedig (URLS) dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchodd i'r URLS am eu mewnbwn i'r Cyngor, eu henwebiadau am Gymrodyr newydd, ac am bob awgrym a wnaed ganddynt.

Roedd yr Athro Richard Day wedi cymryd lle'r Athro Maria Hinfelaar fel cynrychiolydd Prifysgol Glyndŵr. Diolchodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol i'r Athro Hinfelaar am ei holl gyfraniadau a chroesawu'r Athro Day.

Roedd yr Athro Alma Harris wedi gadael Prifysgol Abertawe i ymuno â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a byddai'r Gymdeithas yn chwilio am URLS arall o Abertawe. Anogwyd y cymrodyr i roi gwybod i Fiona Gaskell os oedd ganddynt diddordeb mewn bod yn HASS URLS ar gyfer Abertawe.

Treuliodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ychydig funudau'n annerch y CCB a dywedodd iddo gael ei eni yn Nhredegar, ddwy flynedd ar ôl sefydlu'r GIG. Ddwy flynedd ar ôl sefydlu'r Gymdeithas, roedd wedi ymuno â Chyngor y Gymdeithas a gwasanaethu o dan bob un o Lywyddion y Gymdeithas. Bu'n gweithio gyda phob Prif Weithredwr a chymerodd ran yn y broses o benodi dau ohonynt. Yn ystod ei gyfnod gyda'r Gymdeithas, roedd wedi gweld ei gweithgareddau'n tyfu'n sylweddol, a'r ffactor pwysicaf yn y twf hwnnw oedd y staff. Ni fu bob amser yn hawdd recriwtio pobl, ond roedd y tîm wedi bod yn arbennig iawn, â diddordeb brwd mewn cyflawni amcanion y Gymdeithas.

Mynegodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol ei ddiolch i'r Tîm Gweithredol. Yr oedd yn grŵp arbennig, ac roedd wedi dysgu llawer yn sgil eu doethineb, eu gwybodaeth a'u synnwyr cyffredin.

Un agwedd nodedig ar ddatblygiad y Gymdeithas oedd y cysylltiadau cynyddol y tu hwnt i ffiniau Cymru, Cynghrair yr Academiâu Celtaidd, gwaith gyda'r Saith Academi, y gwaith yr oedd yr Athro Helen Fulton yn ei wneud ag ALLEA, ac eleni, gwaith y Gymdeithas â Chymdeithas Athronyddol America. Yn ogystal â hynny, roedd y Gymdeithas eisoes wedi cwrdd â'r Is-Ganghellor newydd ym Mhrifysgol Caerdydd pan ymwelodd yr Athro Wendy Larner fel Llywydd Te Aparangi, Cymdeithas Frenhinol Seland Newydd - tybed a fyddai'r Athro Larner yn gallu gwella cysylltiadau'r Gymdeithas â Seland Newydd?

I gloi, roedd yr Athro Faron Miller, yr Ysgrifennydd Cyffredinol newydd, Athro Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Abertawe, a'r Ysgrifennydd Cyffredinol cyfredol wedi cymryd y rôl hon gan Athro Cyfrifiadureg anrhydeddus ym Mhrifysgol Abertawe. Roedd pob un o dri Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymdeithas hyd yma wedi cwblhau rhan o'u haddysg is-radd mewn mathemateg. Byddai hynny'n siŵr o greu argraff ar Rishi Sunak. Ac nawr byddai'r holl Ysgrifenywyr Cyffredinol cyfredol a blaenorol yn gwasanaethu gyda'i gilydd fel aelodau o'r Cyngor.

Croesawodd yr Ysgrifennydd Cyffredinol yr Athro Moller a dymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd.

DERBYNIODD a NODODD yr Aelodau bapur AGM/2023/04, Materion Llywodraethu, Swyddogion, y Cyngor a Phwyllgorau: Aelodau newydd a rhai sy'n gadael.

9. Cyhoeddi Cymrawd Er Anrhydedd Newydd, yr Athro Hannah Fry

Cyflwynodd yr Athro Helen Fulton y Cymrawd Er Anrhydedd Newydd, yr Athro Hannah Fry. Mathemategydd yw'r Athro Hannah Fry. Mae hi'n ym Mathemateg Dinasoedd yng Nghanolfan Uwchddadansoddi Gofodol Coleg Prifysgol Llundain, ac yn awdur a siaradwr cyhoeddus adnabyddus, yn ogystal â chyflwyno ar y radio a'r teledu.

Mae hi'n ffigur amlwg o ran ymgysylltu â'r cyhoedd ym maes mathemateg, gan ddifyrru ac ysbrydoli amrywiaeth eang o gynulleidfaedd, ac wedi derbyn nifer o wobrau. Mae ei chyflawniadau nodedig yn amrywio rhwng

traddodi Darlithoedd Nadolig y Sefydliad Brenhinol yn 2019 ar y testun 'Secrets and Lies: The Hidden Power of Maths', ennill Medal anrhydeddus Christopher Zeeman gan Gymdeithas Fathemategol Llundain a'r Sefydliad Mathemateg a'i Chymwysiadau yn 2018 'am ei chyfraniadau at ddealltwriaeth y cyhoedd o'r gwyddorau mathemategol', a derbyn Gwobr Asimov yn 2020 am ei llyfr 'Hello World'.

Fe'i hetholwyd yn Gymrawd er Anrhydedd o'r Academi Frenhinol Peirianeg yn 2022, mae'r Athro Fry yn esiampl eithriadol sy'n ysbrydoli ac yn addysgu cenedlaethau'r dyfodol, a'r cyhoedd yn gyffredinol, ynghylch grym a harddwch mathemateg.

Yn anffodus, nid oedd yr Athro Fry yn gallu ymuno â'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ond anfonodd fideo i'r Gymdeithas y gellir ei gweld [yma](#).

10. Lansio Strategaeth Newydd y Gymdeithas 2023 – 2028

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Strategaeth newydd y Gymdeithas ar gyfer 2023 – 28 a nododd, wedi edrych yn ôl ar yr hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf, fod hyn hefyd yn gyfle i edrych ymlaen, a chyflwyno strategaeth y Gymdeithas am y 5 mlynedd nesaf.

Ffrwyth bron i flwyddyn o waith datblygu drwy ymgynghori oedd y strategaeth hon, a byddai'n pennu trywydd i'r Gymdeithas a rhestr o amcanion i'w cyflawni ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

O fwriad, roedd y strategaeth yn strategaeth lefel uchel ac uchelgeisiol - roedd y Cyngor wedi cytuno mai dyna sut yr hoffai gyflwyno ei weledigaeth ar gyfer cyfeiriad y Gymdeithas.

Nododd y Prif Weithredwr ei diolch i'r Cyngor, yr holl Bwyllgorau Llywodraethu a'r staff am yr amser yr oeddent wedi'i dreulio'n llunio'r Strategaeth sy'n troi o amgylch eu harbenigedd a'u profiad nhw - ac arbenigedd a phrofiad yr holl Gymrodwr - gan mai Cymrodwr y Gymdeithas oedd ased mwyaf y Gymdeithas i gyflawni'r strategaeth hon.

